

Cefnogi Meddylfryd Cadarnhaol





Mae mathemateg o bwys. Mae pawb yn ei defnyddio bob dydd, yn aml heb feddwl am y peth. Caiff ei defnyddio yn y gwaith a gartref, wrth reoli cyllid a helpu plant gyda'u gwaith cartref. Ond mae llawer o oedolion yn cael trafferth gyda mathemateg. Mae eraill yn dod i ben ond efallai nad oes ganddynt y sgiliau na'r hyder gyda rhifau sy'n ofynnol i deimlo'n gyfforddus wrth gefnogi eu plant neu i weithio gyda rhifau yn eu bywyd bob dydd.

Mae llawr o bobl yn orbryderus ynghylch mathemateg, gan wneud popeth posibl i'w hosgoi. Mae eraill o'r farn na allant wneud yn well. Mae National Numeracy yn gwybod bod chwalu'r mythau ynghylch rhifedd a helpu pobl i newid eu meddylfryd yn hanfodol i'w helpu i wella eu sgiliau.



Stori Shahana

Mae Shahana'n gweithio mewn ysgol gynradd a gymerodd ran mewn prosiect ymgysylltu rhieni gyda National Numeracy. Canfu fod ennyn diddordeb rhieni mewn mathemateg wedi gwneud gwahaniaeth mawr yng nghymuned yr ysgol.

“Roedd y rhieni'n cymryd rhan, roeddent yn mynd â gweithgareddau adref, yn awyddus i ofyn cwestiynau a darganfod rhagor. Mae'r plant a arferai eistedd yn ôl ac a oedd yn anfoddog 'nawr yn cymryd rhan – y gymuned gyfan yn ymwneud â mathemateg!”

Gyda'r rhieni'n cymryd mwy o ddiddordeb, meddai Shahana, “Mae yna wahaniaeth gwirioneddol yn hunanhyder a chymhelliant y plant.”

“Mae yna wahaniaeth gwirioneddol yn hunanhyder a chymhelliant y plant.”



Pam y dylem ennyn diddordeb rhieni a gofalwyr mewn mathemateg?

Rhieni, gofalwyr a theuluoedd sy'n rhoi'r profiad cyntaf o fathemateg i blant. Mae'n bwysig bod y cysylltiadau cyntaf hynny â rhifau yn rhai cadarnhaol. Gall hyn gael effaith fawr ar y modd y mae plant yn ymateb i fathemateg, 'nawr ac yn y dyfodol.

Mae ymchwil yn dangos bod ymgysylltu rhieni a gofalwyr ag addysg eu plant yn arwain at gyrhaeddiad uwch yn yr ysgol. Gall hefyd wella ymddygiad plant a'u presenoldeb yn yr ysgol. Mewn ysgolion cynradd, mae dylanwad y teulu yn cael effaith fwy ar gyrhaeddiad plant na dylanwad yr ysgol.¹

Yn achos mathemateg, mae plant sy'n meddu ar sgiliau rhifedd cryf yn fwy tebygol o aros ym myd addysg yn hirach, o fod mewn swydd pan fyddant yn oedolion, ac o ennill cyflog uwch trwy gydol eu bywyd. Mae'r ymchwil yn dangos bod plant yn cael eu cymell mwy i ddysgu am fathemateg pan fydd eu rhieni'n siarad â nhw am y rhifedd mewn bywyd bob dydd.²

Nid oes rhaid i rieni a gofalwyr fod yn arbenigwyr mathemateg i gael effaith. Ni waeth beth yw lefel eu mathemateg, gall pob teulu wneud gwahaniaeth i hyder eu plant gyda rhifau.

Yn achos y rhieni hynny sy'n cael trafferth gyda mathemateg eu hunain, gall cefnogi eu plant eu cymell yn gryf i wella eu hyder eu hunain gyda mathemateg. Gall gweithio gyda rhieni a gofalwyr i gefnogi'r modd y mae plant yn dysgu mathemateg gynyddu lefel sgiliau y plentyn a'r teulu, fel ei gilydd.

Mae'r canllaw hwn yn archwilio rhai ffyrdd o gefnogi oedolion a phlant i feithrin agweddau cadarnhaol at fathemateg.

1 Desforges, C. ac Abouchaar, A. (2003). *The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Education on Pupil Achievement and Adjustment: A Literature Review*, Yr Adran Addysg a Sgiliau.

2 Mae cymhelliant y myfyrwyr i ddysgu mathemateg yn uwch ymhlith plant y mae eu rhieni yn trafod â nhw y modd y gall mathemateg gael ei chymhwyso i fywyd bob dydd neu sy'n cael gafael ar ddeunyddiau mathemateg ar eu cyfer. Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2013.

Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer rhieni sy'n cefnogi plant

Nid oes rhaid i rieni a gofalwyr fod yn arbenigwyr mathemateg i allu cefnogi eu plant. Gall pob teulu wneud gwahaniaeth i'r modd y mae eu plant yn dysgu mathemateg trwy ddilyn yr awgrymiadau defnyddiol hyn.



Siarad yn gadarnhaol am fathemateg

Mae plant yn dysgu trwy esiampl, felly dylid osgoi dweud pethau fel "alla i ddim gwneud mathemateg" neu "roeddwn i'n casáu mathemateg yn yr ysgol." Mae'n hawdd i blant ddechrau meddwl yn yr un modd eu hunain. Mae cadw pethau'n gadarnhaol yn fwy tebygol o helpu plant i fagu hunanhyder gyda mathemateg.

Mae'r rhain yn awgrymiadau syml y gall unrhyw un eu gwneud ni waeth beth yw lefel eu rhifedd.

Fodd bynnag, bydd pobl yn aml yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cefnogi eu plant gyda mathemateg os ydynt yn gwella eu sgiliau a'u hyder eu hunain o ran rhifedd. Mae'r National Numeracy Challenge yn offeryn dysgu ar-lein, rhad ac am ddim, sy'n helpu oedolion i gymryd y camau cyntaf tuag at wella eu sgiliau a'u hyder gyda rhifau.



Tynnu sylw at fathemateg mewn bywyd bob dydd

Mae mathemateg o'n cwrdd ni i gyd – nid dim ond rhywbeth sy'n digwydd yn yr ysgol ydyw! Mae dangos y rhifau i blant o ran pethau megis coginio, defnyddio arian, a chynllunio teithiau yn ffordd syml o ddod â mathemateg yn fyw. Bydd hyn yn eu helpu i weld gwerth dysgu mathemateg.



Canmolwch blant am ymdrech yn hytrach na thalent

Mae rhoi canmoliaeth i blant yn bwysig, ond gall y math o ganmoliaeth yr ydym yn ei defnyddio gael effaith ar sut y maent yn teimlo am fathemateg. Mae canmol plant am y gwaith caled y maent wedi'i wneud, neu am weithio allan y camau i gael ateb, yn fwy buddiol na dweud wrthynt eu bod yn glyfar. Mae'n eu helpu i weld nad yw'n ymwneud â gallu naturiol – ond yn hytrach, trwy weithio'n galed, y gallant wella bob amser.

Deall gorbryder ynghylch mathemateg

Mae profi gorbryder ynghylch mathemateg yn gyffredin iawn. Mae llawer o bobl yn dioddef o ‘feddwl gwag’, straen neu hyd yn oed symptomau corfforol megis y galon yn rasio wrth wynebu problemau mathemateg. Mae'r bobl sy'n profi gorbryder ynghylch mathemateg yn aml yn osgoi sefyllfaoedd lle gallai fod yn rhaid iddynt ddefnyddio rhifau.

Gall hyn atal oedolion rhag ymgysylltu â dysgu eu plant. Gall hefyd atal pobl rhag symud ymlaen â'u dysgu eu hunain.



Rydym yn aml yn clywed pobl yn dweud pethau tebyg i:

“Pan fyddaf yn meddwl am fathemateg, rwy'n teimlo'n bryderus ac yn llawn cywilydd. Pan ddaeth fy merch â'i set gyntaf o waith cartref mathemateg adref, roedd yn gyffrous iddi hi ond cefais un olwg arno a gwybod na fyddwn yn gallu ei wneud.”
Cynrychiolydd Dysgu'r Undebau

“Arferai'r plant ddod i ofyn i mi am help, a byddwn yn gwneud esgusodion am nad oeddwn am iddynt feddwl fy mod i'n dwp.”
Gweithiwr dosbarthu

“Mae fy meddwl yn gwagio, rwy'n dioddef rhwystr meddyliol llwyr ac ni allaf wneud unrhyw beth gyda rhifau.”
Gweinyddwr

“Pan fyddai rhywun y sôn am fathemateg, byddwn yn llythrennol am redeg allan o'r ystafell. Gallwn deimlo fy mhwyseidd gwaed yn codi.”
Cynorthwydd Gofal Iechyd

Mae'r mathau hyn o ymatebion yn aml wedi'u hachosi gan brofiadau gwael o fathemateg yn y gorffennol. Gall profiadau yn yr ysgol, bywyd yn y cartref neu fywyd teuluol, y diwylliant negyddol cyffredin tuag at fathemateg yn y DU, ac anawsterau dysgu megis dyscalcwlia, oll chwarae rhan.

Gall gorbryder ynghylch mathemateg hefyd gael ei drosglwyddo o oedolion i'r plant sydd dan eu gofal. Felly, er mwyn i oedolion deimlo'n gyfforddus wrth gefnogi plant gyda rhifau – neu gymryd y camau cyntaf i wella eu sgiliau rhifedd eu hunain – mae'n bwysig goresgyn yr agweddau a'r credoau cryf iawn hyn sy'n amgylchynu mathemateg.

Mae dull National Numeracy o gefnogi oedolion yn seiliedig ar ymchwil yn ymwneud â meithrin ymatebion cadarnhaol i sefyllfaoedd negyddol. Mae'n golygu bod agweddau a meddylfryd cyn bwysiced â'r fathemateg.

I ddechrau, mae deall bod dysgu pan ydych yn oedolyn yn wahanol iawn i ddysgu yn yr ysgol yn helpu oedolion i gymryd y cam cyntaf hwnnw tuag at ddysgu. Mae dysgu pan ydych yn oedolyn yn cynnig mwy o opsiynau, gan gynnwys beth i'w ddysgu, ble, a sut.

Trwy ddefnyddio'r National Numeracy Challenge, gall pobl ddysgu yn eu hamser a'u gofod eu hunain, ac nid oes neb yn edrych dros eu hysgwydd, sy'n aml yn cynyddu'r gorbryder.

Mae'r National Numeracy Challenge yn seiliedig ar sgiliau gwahanol, mwy ymarferol o ddydd i ddydd na'r fathemateg a ddygwyd gennym yn yr ysgol. Mae wedi'i saernio'n benodol ar gyfer oedolion sydd am neu sy'n gorfod gwella eu sgiliau rhifedd, gan gynnwys y rheiny sydd â diffyg hyder.

Mae'r dull Gwerth, Cred a Dyfalbarhad yn seiliedig ar ymchwil yn ymwneud â meithrin ymatebion cadarnhaol i sefyllfaoedd negyddol. Mae'n golygu bod agweddau a meddylfryd cyn bwysiced â'r fathemateg.



Stori Oreleo

Cafodd Oreleo ddechrau simsan mewn perthynas â mathemateg, a ddechreuodd yn yr ysgol gynradd pan ddywedodd ei athro wrtho ei fod yn dda i ddim. Roedd yn teimlo nad oedd unrhyw bwynt rhoi cynnig arni.

Parhaodd mathemateg i'w rwystro yn ddiweddarach yn ei fywyd, er enghraifft pan ddeuai'n fater o gyllid, byddai'n osgoi gwneud penderfyniadau. Meddai, “Parhaodd y gorbryder tan oeddwn i bron yn dri deg.”

Ar ôl gweithio trwy ei rwystrau, defnyddiodd Oreleo'r National Numeracy Challenge, ac ers hynny mae wedi cwblhau ei Sgiliau Gweithredol Lefel 2 mewn Rhifedd.

“Parhaodd y gorbryder tan oeddwn i bron yn dri deg.”

Yn y canllaw hwn, rydym yn amlinellu fframwaith National Numeracy, sef y fframwaith Gwerth, Cred a Dyfalbarhad. Mae'r dull hwn wedi'i anelu at chwalu'r mythau ynghylch mathemateg a chyflwyno ymagwedd fwy cadarnhaol at wella sgiliau rhifedd. Gall y fframwaith hefyd fod yn ddefnyddiol i rieni a gofalwyr ystyried y negeseuon y maent yn eu cyfleu i blant.



Gwerth

“Deall pwysigrwydd mathemateg mewn bywyd bob dydd a manteision gwella rhifedd”

Gwerth yw'r cymhelliant i ddysgu. Pan ofynnir i bobl ddysgu rhywbeth, mae angen iddynt gael gwybod pam y mae'n ddefnyddiol. Mae angen i bobl wybod beth yw manteision gwella eu sgiliau rhifedd.

Dywedir wrth lawer o bobl ei bod “yn iawn bod yn wael am wneud mathemateg”, ac mae tystiolaeth yn dangos bod llawer o bobl yn tyfu i fyny'n meddwl nad oes arnynt angen mathemateg. Rydym yn aml yn clywed pobl yn dweud: “Does arna i ddim angen mathemateg yn fy mywyd nac yn fy swydd, felly pam y mae angen i mi wella?”

Mae mathemateg yn aml yn cael ei chysylltu â phynciau a addysgir yn yr ysgol, megis algebra a thrigonometreg, nad oes iddynt, o reidrwydd, werth mewn bywyd bob dydd.

Ond wrth i bobl ddechrau meddwl am le y maent yn defnyddio mathemateg yn eu bywyd bob dydd, maent fel arfer yn nodi nifer o enghreifftiau. Mae angen i ni sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn deall lle y maent yn defnyddio rhifedd yn y gwaith a gartref, fel ei gilydd, er enghraifft wrth gynllunio teithiau, rheoli eu harian, coginio, a siopa.

Gall deall hyn helpu rhieni a gofalwyr i dynnu sylw eu plant at ba mor ddefnyddio yw mathemateg yn eu bywyd bob dydd.



Syniad ar gyfer gweithgaredd
Gofynnwch i'r rhieni a'r gofalwyr yr ydych yn eu cefnogi feddwl am un dasg y maent yn ei chyflawni'n rheolaidd gartref. Pa rifau sy'n cael eu cynnwys? Trafodwch y modd y mae rhifau'n ddefnyddiol mewn bywyd bob dydd a sut y gallant dynnu sylw eu plant at hyn hefyd.



Stori Jason

Roedd mathemateg bob amser yn codi ofn ar Jason. Roedd am wella am na allai helpu ei blant gyda'u gwaith cartref mathemateg, a theimlai fel petai'n eu siomi.

Meddai, “Yn wreiddiol, dechreuais wneud hyn ar gyfer fy mhlant, ond sylweddolais ei bod yn fy helpu yn y gwaith hefyd.” Teimlai Jason yn fwy hyderus i wneud yn dda yn ei waith mewn canolfan ddosbarthu, a defnyddiodd ei sgiliau newydd i ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau.

Nid yw'n cuddio rhag sefyllfaoedd sy'n cynnwys mathemateg mwyach. Daeth heriau bob dydd yn haws hyd yn oed, meddai, “Roedd gallu rhannu'r bil yng nghwmni fy ffrindiau wedi gwneud i mi deimlo'n falch dros ben.”

“Yn wreiddiol, dechreuais wneud hyn ar gyfer fy mhlant, ond sylweddolais ei bod yn fy helpu yn y gwaith hefyd.”

Cred

“Cydnabod nad yw gallu yn sefydlog, a meithrin agwedd gadarnhaol”

Ystyr cred yw deall, derbyn a chydabod y gall pawb wella eu rhifedd.

Yn bwysig, i ddysgwyr, mae'n golygu bod yn ymwybodol os gall ‘pawb’ wella, fod hyn yn golygu y gallant hwy wella hefyd.

Pan fydd rhieni a gofalwyr yn pryderu ynghylch mathemateg, mae'n werth archwilio o le y mae eu hofnau'n deillio. Yn aml nid y fathemateg ei hun yw'r broblem. Efallai ei bod yn ymwneud â'r ffordd y cawsant eu haddysgu, y math o bethau y maent yn eu hystyried yn fathemateg, neu'r pethau a ddywedwyd wrthynt pan oeddent yn blant.

Mae meddylfryd pobl ynghylch mathemateg yn aml wedi datblygu o brofiadau yn yr ysgol, ofn methu, neu bryderon ynghylch ymddangos yn dwp. Mathemateg yw un o'r pynciau cyntaf lle caiff plant eu rhoi mewn setiau, felly pan fyddant yn ifanc iawn cânt eu harwain i feddwl eu bod naill ai'n dda neu'n wael gyda rhifau.

Mae hyn yn peri i lawer o bobl gredu bod rhai unigolion yn cael eu geni i fod yn dda mewn mathemateg ac nad ydynt yn un o'r bobl hynny. Felly, maent yn credu na allant fyth fod yn dda gyda rhifedd. Gelwir hyn yn ‘feddylfryd sefydlog’.¹

¹ Dweck, C. S. (2006). *Mindset: The New Psychology of Success*. Efrog Newydd: Random House Publishing Group.

Mae angen sicrhau rhieni a gofalwyr y gall pawb wella eu rhifedd. Mae pobl yn hoffi dysgu mewn ffyrdd gwahanol ac ar gyflymderau gwahanol, ond nid yw eu gallu wedi'i naddu mewn carreg. Nid oes yna dystiolaeth bod ‘gennyn mathemateg’ yn bodoli sy'n gwneud rhai pobl yn well am wneud mathemateg. Mae deall hyn yn cael ei alw'n ‘feddylfryd twf’. Mae'n helpu i ailfframio meddyliau i sicrhau mwy o feddylfryd twf. Er enghraifft symud o, “Fydda i byth yn deall hyn,” i “Dydw i ddim yn deall hyn eto.”

Gall meddu ar y meddylfryd hwn eu hunain hefyd helpu rhieni a gofalwyr i drosglwyddo agweddau cadarnhaol i'w plant. Os gall yr oedolion yn y teulu ddysgu a gwella, yna mae'n dangos i'r plant y gallant hwy wneud hynny hefyd.



Syniad ar gyfer gweithgaredd
Edrychwch ar y ddogfen ‘Mythbuster’ gyda'r rhieni a'r gofalwyr yr ydych yn eu cefnogi. A ydynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau? Pam? Defnyddiwch y poster i chwalu rhai mythau cyffredin ynghylch mathemateg.



Stori Susan

Roedd Susan wedi cael llongol bol ar beidio â theimlo'n gyfforddus gyda'r fathemateg a oedd yn ofynnol i weithio gydag arian. Ceisiodd osgoi'r agweddau ariannol ar ei swydd; tasg anodd o ystyried mai hi oedd yn rheoli cyllidebau'r swyddfa!

Roedd yn benderfynol peidio â derbyn athroniaeth ei rhieni bod ei theulu'n wael yn enetig am wneud mathemateg. Er iddi ei chael yn anodd, daliodd ati ac ni roddodd y gorau iddi tan iddi gyflawni ei nodau. Meddai, “Gwyddwn y gallwn fynd i'r afael â'm problemau pe byddwn yn gwneud ychydig o ymdrech.”

Mae'r National Numeracy Challenge wedi helpu Susan i wneud penderfyniadau ariannol synhwyrol, ac mae hi'n nawr yn teimlo'n fwy hyderus i barhau i adnewyddu ei sgiliau.

“Gwyddwn y gallwn fynd i'r afael â'm problemau pe byddwn yn gwneud ychydig o ymdrech.”

Dyfalbarhad

“Cydnabod bod pawb yn brwydro i lwyddo – mae'n rhan o'r broses ddysgu.”

Mae'n helpu os yw pobl yn cydnabod y gall gwella eu sgiliau mathemateg deimlo'n anodd. Mae dysgu unrhyw sgil newydd yn anodd ac yn aml yn frwydr. Ond nid yw cael trafferth yn golygu na all rhywun wella neu ei fod, yn syml, yn wael am wneud mathemateg. Mae pawb yn cael trafferth ar ryw adeg, ac mae gwneud camgymeriad neu gael rhywbeth yn anodd yn rhan normal o ddysgu.

- Gosod nodau realistig
- Dysgu mewn camau cryno bob dydd
- Gofyn am gymorth pan fydd arnoch ei angen
- Ystyried camgymeriadau a llithriadau yn bethau defnyddiol yn hytrach nag yn rhwystrau
- Dod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddatrys problem os nad yw'r ymgais gyntaf yn gweithio



Syniad ar gyfer gweithgaredd
Gofynnwch i'r rhieni a'r gofalywyr yr ydych yn gweithio gyda nhw rannu rhywbeth arall yn eu bywyd y maent wedi cael trafferth i'w wneud ac wedi gorfod dyfalbarhau ag ef, megis dysgu gyrru. Siaradwch am y modd y mae dysgu mathemateg yr un fath â dysgu unrhyw sgil arall: mae'n gofyn am ddyfalbarhad, amser ac ymdrech.

Wrth ddysgu gyrru, nid yw pobl yn disgwyl dod i arfer ar unwaith. Mae'n cymryd nifer o oriau o ymarfer i ddysgu. Mae llawer o bobl yn methu eu prawf gyrru y tro cyntaf. Ni fydd rhai yn llwyddo'r eilwaith na'r drydedd gwaith chwaith. Ond byddant fel arfer yn mynd yn ôl i'r car ac yn cael rhagor o wersi nes bod ganddynt y sgiliau gofynnol. Nid ydynt yn meddwl, “Dydw i ddim yn rhywun sy'n gyrru.”

Efallai fod rhieni a gofalywyr wedi cael trafferth yn yr ysgol neu wedi methu cymhwyster; efallai eu bod yn cael trafferth dysgu fel oedolyn. Ond gall pawb ddysgu, gwella a meithrin y sgiliau gofynnol yn y pen draw. Mae hyn yr un mor wir am oedolion ag y mae am blant.

Pan fyddwch chi, neu'r rhieni yr ydych yn gweithio gyda nhw, yn wynebu rhwystrau i ddysgu, gall y canlynol helpu:

- Deall sut yr ydych yn dysgu yn y ffordd fwyaf effeithiol, boed hynny yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth neu yn eich gofod a'ch amser eich hun

“Gall dysgu fod yn anodd, ond mae'n debyg i redeg: fydddech chi ddim yn rhedeg marathon heb wella eich stamina dros gyfnod o amser.”



Stori Rachel

Mae Rachel yn rheolwr yn y Gwasanaeth Sifil nad yw erioed wedi ei hystyried ei hun yn berson mathemateg. Ond yn lle derbyn hyn, chwiliodd am gymorth ar-lein.

Gwthiodd ei hun i roi cynnig ar y National Numeracy Challenge. Canfu Rachel fod hyn wedi helpu trwy ei galluogi i ganolbwyntio ar yr hanfodion ac adfywio ei dysgu.

Trwy ei rannu'n adrannau cryno a dyfalbarhau wrth weithio ar ei gwendidau, gwellodd ei sgiliau a'i hyder.

Meddai, “Gall dysgu fod yn anodd, ond mae'n debyg i redeg: fydddech chi ddim yn rhedeg marathon heb wella eich stamina dros gyfnod o amser.”

Wrth siarad am ei phrofiad o'r National Numeracy Challenge, meddai, “Dydw i ddim yn gor-ddweud wrth nodi ei fod, o bosibl, wedi newid fy mywyd.”



Stori Mel

Roedd ar Mel angen cymhwyster mathemateg ar gyfer ei gyrfa nyrsio, ond roedd rhifau'n codi ofn arni. “Doedd gan i ddim hyder i roi cynnig arni hyd yn oed. Ar un adeg, roeddwn am roi'r gorau i'r holl beth. Doeddwn i ddim yn hoffi mathemateg. Roeddwn i'n meddwl na fyddwn byth yn llwyddo.”

Nid oedd chwaith yn teimlo y gallai helpu ei merch gyda'i gwaith cartref mathemateg. “Doedd gen i ddim syniad ble i ddechrau.”

“Nawr gallaf helpu fy merch a dw i'n fam falch!”

Cyflwynwyd Mel i'r National Numeracy Challenge, ac aeth ati i'w ddefnyddio i'w helpu i ymarfer ei sgiliau mathemateg. “Gweithiais arno gartref. Byddwn yn gweithio am awr gyda'r nos er mwyn i mi ddal ati, ac roedd hynny'n bendant wedi fy helpu i gwblhau fy arholiad.”

Mae bellach wedi cyflawni ei chymhwyster ac yn hyfforddi i fod yn nyrs. Mae hefyd yn fwy hyderus i helpu ei merch gyda mathemateg. “Nawr gallaf ei helpu, a dw i'n fam falch!”



Stori Gillian

Dechreuodd Gillian gael trafferth gyda mathemateg yn yr ysgol uwchradd. “Roeddwn i'n teimlo ar goll yn y gwersi mathemateg. Tyfodd hynny wedyn i fod yn orbryder ynghylch mathemateg.”

Roedd arni angen mathemateg ar gyfer ei gyrfa fel athrawes ysgol gynradd. Pasiodd ei harholiadau ond nid oedd yn teimlo'n gyfforddus gyda mathemateg. “Pan ddechreuais addysgu, rwy'n cofio mynd i banig a gorfod addysgu pob gwers i mi fy hun y noson gynt, heb deimlo'n hyderus.”

Dywed fod gwybod beth yw gorbryder ynghylch mathemateg wedi ei helpu. “Mae bod yn agored ac yn onest yn ei gylch yn beth da. Rwy'n agored gyda'r plant, gan ddweud, ‘Alla i ddim gweithio hwnna allan; dewch i ni ei weithio allan gyda'n gilydd.’ Bod â'r hyder i wneud camgymeriadau sy'n gwneud pethau'n haws i mi.”

“Bod â'r hyder i wneud camgymeriadau sy'n gwneud pethau'n haws i mi.”

For more information please get in touch
Telephone: 01273 915044
Email: enquiries@nationalnumeracy.org.uk
Web: www.nationalnumeracy.org.uk